

# Dewi Jones, Dyffryn Nantlle yn trafod Edwin Lees (1800 – 1887) a'i ymweliad ag Eryri

Mae'n wybyddus bod gwyddonwyr, yn ystod eu hymweliadau â gogledd Cymru o'r 17 ganrif ymlaen, yn llogi brodorion lleol i'w harwain i'r gwahanol safleoedd y mynnet ymweld â hwy. Erbyn y 19 ganrif bu cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth Arfon yn dilyn twf y diwydiant llechi a thwristiaeth ac, ar yr un pryd, bu cynnydd mewn diddordebau ym myd natur, botaneg yn bennaf. Yn sgil hyn bu cynnydd hefyd mewn llyfrau a chylchgronau perthnasol i'r pynciau hynny, a daeth casglu sbesimenau yn hobi ffasiynol ymhlith aelodau'r dosbarth canol nad oeddynt yn 'wyddonwyr' yng ngwir ystyr y gair. Dyma esgor ar oes y casglu mawr, a bu i'r dosbarth gweithiol elwa'n sylweddol yn sgil y 'ffasiwn' newydd drwy un ai gasglu ar ran yr ymwelwyr, neu werthu planhigion gwyllt drwy eu harddangos mewn potiau wrth ddrysau eu tai.


Cesglid blodau, hesg, gweiriau, cen a mwsogl, heb sôn am dameidiau o gopr a quartz, yn ogystal â gwahanol rywogaethiau o bryfetach, ond rhedyn heb os oedd ffefryn y Fictoriaid. Ceir sawl adroddiad difyr yng nghylchgronau a llyfrau'r oes am y teithiau casglu i wahanol safleoedd yn Eryri, ond anaml y ceir ynddynt y gydnabyddiaeth ddyledus i'r tywysyddion a'u harweiniodd, neu a'u cyfarwyddodd, tua'r safleoedd hynny.

Nid felly Edwin Lees (1800-1887). Yn ei lyfr *The Botanical looker-out*, a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 1842 gydag ail argraffiad helaethach yn 1851, ceir hanes ei anturiaethau ar yr Wyddfa a'r Glyder yn 1838 yng nghwmni ei 'Gymro bach', chwedl yntau.

Ar ddiwrnod cymysglyd o niwl a chyfnodau heulog yn ystod Hydref o'r flwyddyn honno crafangai am ei fywyd ar yr astell gul o lwybr (uwchlaw dyfnder unionsyth o tua 250 troedfedd) sy'n cysylltu gwaelod cwter y Twll Du, uwchlaw Cwm Idwal, â safle'r 'Gerddi crog' adnabyddus ar Glogwyn y Geifr. Llwyddodd Lees i groesi'r rhan beryglus o'r daith, a chasglu ei sbesimen, drwy gyfarwyddyd ac anogaeth ei dywysydd William Williams: 'Wil boots' i ardalwyr bro Eryri.

Er bod sawl planhigyn arctig-alpaidd arbennig i'w gael yn y safle hwn, y prif atyniad i Lees y diwrnod hwnnw oedd y rhedynen gelynnog (*Polystichum lonchitis*), holly fern yn Saesneg ac wedi ei Gymreigeiddio i 'holiffars' gan chwarelwyr a

meinars y gweithfeydd copr a arferai eu casglu a'u gwerthu. Hon oedd y *souvenir* o holl blanhigion Eryri ac, o'r



herwydd, yn cael ei chasglu bron at ddifancoll er mwyn diwallu anghenion y casglwyr.

Er i Lees wneud sawl ymweliad â Chymru yn ystod ei yrfa, mae'n debyg mai ei antur yng nghyffiniau'r Twll Du a wnaeth yr argraff fwyaf cofiadwy arno. Hefyd mae ei gownt ohono'n cael ei gyflwyno i'r tywysydd amryddawn William Williams yn werth ei gofnodi.

Daeth Lees i Lanberis o Faentwrog drwy Feddgelert, Nantgwynant gan droi am Fwlch Llanberis ym Mhen-y-gwryd. Wedi cyrraedd y 'Dolbadarn' holodd wraig y dafarn ynglŷn â llogi tywysydd, ac ymhen ychydig daeth ato ŵr a oedd yn hen gyfarwydd ag arwain ymwelwyr i gopa'r Wyddfa yn ddyddiol yn ystod misoedd yr haf. Ond wedi i Lees egluro ei fod yn awyddus nid yn unig i gyrraedd copa'r Wyddfa, ond hefyd i archwilio Clogwyn y Garnedd a Chlogwyn Du'r Arddu am blanhigion, gwrthododd gan egluro y buasai yn ystod yr amser yn colli arian dwy siwrnai ychwanegol. Aeth ymlaen i egluro fod yna dywysydd ar gael a oedd yn arbenigo yn y math hwn o dywys, a dyna sut y bu i Lees gyfarfod â William Williams, y *Botanical Guide* enwog.

*Next morning a brisk little Welchman, active as the goat of his native mountains, with a tin box on his back, on which was painted 'William Williams', presented himself to my inspection, and said that he was so fond of plants, that he would go with me any where, as long as I pleased.*

Ganed Edwin Lees yng Nghaerwrangon yn 1800 ac er iddo gael addysg mewn ysgol breswyl yn Birmingham, dywedir mai gŵr hunandysgedig ydoedd mewn pynciau megis botaneg a llenyddiaeth.

Fe'i prentisiwyd i argraffydd yn ystod ei arddgau cynnar gan sefydlu busnes argraffu a llyfrwerthwr ar ei liwt ei hun yn Stryd Fawr, Caerwrangon, yn ddiweddarach. Priododd Sarah o Tewkesbury yn 1828; yr un flwyddyn ag y cyhoeddodd dan y ffugenw Ambrose Florence, lyfr tywys i Gaerwrangon a'i Chadeirlan, gydag atodiad ar blanhigion lleol.

Ni fu hir oes i'w chwarterolyn *Worcestershire Miscellany*, cylchgrawn ar hanes lleol nas cyhoeddwyd ond pum cyfrol ohono. Felly hefyd ei *Worcester Literary and Scientific Institute*, ac er mai i Dr. Charles Hastings y priodolir yr *Illustrations of the natural history of Worcestershire* (1834), ffrwyth llafur Lees ydoedd yn bennaf. Y flwyddyn ganlynol, etholwyd ef yn aelod o'r Gymdeithas Linneaid, ac yn ystod y 1840au cynnar dechreuodd ymddiddori yn y mwyr (*Rubus*); tylwyth cymhleth o blanhigion a oedd bryd hynny ond yn dechrau tynnu sylw botanegwyr. Gwerthodd ei fusnes argraffu a llyfrwerthwr, ac yn fuan wedyn gwelwyd ei gyfraniad cyntaf fel awdur rhydd yn 1842 drwy ei *The botanical looker-out* gan ddilyn gyda *The botany of the Malvern hills* yn 1843. Dyma ddechrau ei yrfa o ddechrau

mlynedd ar hugain fel awdur. Cofir ef yn bennaf fel botanegydd am ei gyfraniad i astudiaethau arloesol ar deulu'r mwyr. Yn 1844 neilltuodd Cymdeithas Fotaneg Llundain saith taith-faes olynol dan ei arweiniad er mwyn rhoi cyfle iddo egluro ac arddangos y gwahanol fathau o deulu'r mwyr y llwyddodd i'w dehongli. O gymhariaeth, cafodd ei feirniadu fel awdur am fod ei waith yn ysgafn a newyddiadurol ac yn llawn rhamantiaeth.

Daeth ei allu fel trefnydd i'r amlwg pan gychwynodd y *Worcestershire Naturalists Club* yn 1847, cymdeithas a sefydlwyd ar yr un patrwm â llawer corff o'r fath a ddaeth i fodolaeth yn ystod y cyfnod gyda phwyslais mawr ar faes-deithiau i wahanol gynefinoedd. Ef oedd llywydd cyntaf y clwb ac awgrymodd o'r cychwyn bod angen cofrestru planhigion y sir ar gyfer cyhoeddi detholiad cynhwys-fawr o'i chynnyrch naturiol. Llwyddodd, ac ymhen ugain mlynedd ymddangosodd *The botany of Worcestershire*.

Yn ystod ei yrfa bu Lees yn gyson yn argymhell eraill i ymddiddori ym myd natur gan feirniadu'n hallt y sawl a oedd yn difrodi bywyd gwyllt drwy orgasglu planhigion; hyn mewn cyfnod pan nad oedd daliadau o'r fath yn ffasiynol. Yn wir, proffwydodd y syniad o sefydlu gwarchodfeydd natur mor gynnar â 1828. Mae'n eithaf tebygol iddo grybwyll hyn wrth William Williams yn ystod ei ymweliad ag Eryri yn 1838 ac, o ganlyniad hau'r syniad a greodd 'lyn Wil boots', gwarchodfa natur gynnar yn Llanberis a ddirywiodd mae'n debyg yn dilyn marwolaeth Wil ar Glogwyn y Garnedd yn 1861.

Yn dilyn marwolaeth ei wraig gyntaf, ail-briododd Lees gyda merch fferm o'r enw Jane Bridges o St. John's and Broughton Hackett yn 1880. Bu farw yn ei dŷ yn Green Hill Summit, ger London Road, ar Hydref 21, 1887 a chladdwyd ef yn Pendock ger Ledbury ar yr 28 o'r mis hwnnw.

Oddarlenn ei lyfrau, yn ogystal â'i fân erthyglau, cawn bortread o gymeriad sy'n nodweddiadol o naturiaethwyr cyfnod oes Fictoria. Gwaith maes allan yn yr awyr agored oedd botaneg bryd hynny, ond erbyn diwedd ei yrfa, gwelodd Lees y cyfnewidiadau a oedd i raddol ddisodli'r casgliad Herbarium pan ddaeth astudiaethau biolegol y Prifysgolion i wyrdroi'r hen drefn.



William Williams 1805 – 1861